# CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR

## Cofnodion Cyfarfod

**4ydd Mawrth 2026 yn rhithiol ar Teams**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng. Dewi Gwyn (Cadeirydd), Nia Jones, Llinos Roberts, Owain Evans, D.Idriswyn Roberts, Heulwen Owen.<br>Cynghorwyr Sirol: Dyfed Jones<br>Gillian Morris (Clerc) | |
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU**<br>Janet Jones, Elin Williams.<br>Cynghorwyr Sirol: Robin Williams, Sonia Williams. |
| **2.** | **DATGAN DIDDORDEB**<br>7.1 – HO<br>7.2 – DG, HO, DIR, OE |
| **3** | **DERBYN COFNODION**<br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 04/02/2026. Fe'i derbyniwyd fel rhai cywir, NJ yn cynnig, OE yn eilio. |
| **4.** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | Hysbysfyrddau – Clerc wedi derbyn ffurflen gan Menter Môn i gwblhau er mwyn symud ymlaen. |
| **4.2** | Cysgodfan Bws Star – Disgwyl i Menter Môn gysylltu gyda dyluniadau ar gyfer y gysgodfan. |
| **4.3** | Ffordd Ael Y Garnedd - Clerc yn trafod gyda CSYM. |
| **4.4** | Biniau Graeanu - Bin wedi ei osod yn Star, disgwyl ymateb gan CSYM ynglŷn â'r lleoliad ym Mhenmynydd. |
| **5.0** | **Materion ariannol** |
| **5.1** | Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa ariannol. |
| **5.2** | Taliadau - Cymeradwyo taliadau. |
| **5.3** | PAYE – Cyfrifydd wedi cysylltu gyda'r Clerc er mwyn cydweithio ar y mater yma. |
| **6.0** | **GOHEBIAETH CYNGOR SIR YNYS MÔN:** |
| **6.1** | Fforwm Cyswllt Cynghorau tref a chymuned - Adroddiad wedi ei gylchredeg. Cafwyd wybod am Raglen Balchder Bro Llywodraeth y DU. Mae gan CSYM £750k i'w rannu rhwng y cynghorau tref a chymuned i ariannu prosiectau o fewn eu cymunedau. Gwariant cyfalaf yn unig a ganiateir o dan y grant ac y byddai rhaid gwario'r arian erbyn diwedd Mawrth 2027. Bydd y cyngor yn cael gwybod trwy lythyr faint o arian a neilltuwyd iddynt (tua £5k), ynghyd â manylion pellach am amodau'r grant. |
| **6.2** | Ymgynghoriad - Gofyn i drigolion helpu lunio Cynllun Datblygu Lleol newydd Ynys Môn – Ymgynghoriad yn cau 13/03/2026. Pawb i ymateb erbyn 09/03/2026. |
| **6.3** | Ymgynghoriad - Gweledigaeth, Amcanion & Opsiynau a Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig - Ymgynghoriad yn cau 13/03/2026. Pawb i ymateb erbyn 09/03/2026. |
| **6.4** | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad Chwefror 2026 |
| **7.0** | **Ceisiadau cynllunio:** |
| **7.1** | **Cais Cynllunio: FPL/2026/7 -** Tyn Llan, Ffordd Penmynydd, Penmynydd<br>Trafodwyd y cais a phenderfynwyd nodi sylwadau a dderbyniwyd gan drigolion lleol am leoliad a maint y lagŵn a'r sgil effeithiau posib o law trwm a dŵr yn rhedeg oddi wrth y lagŵn. |
| **7.2** | **Cais Cynllunio: FPL/2025/311 -** Tai Lewis Rogers, Ffordd Penmynydd, Penmynydd<br>Trafodwyd y cais a phenderfynwyd gyrru llythyr cefnogaeth ynglŷn â'r datblygiad. |

# CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR

| | |
|---|---|
| **8.0** | **Penderfyniad Cynllunio:** |
| **8.1** | Dim |
| **9.0** | **Gohebiaeth Ychwanegol** |
| **9.1** | Cylchlythyr Cymunedau Oed Gyfeillgar – Adroddiad wedi ei gylchredeg. |
| **9.2** | Pont Grog Menai - Diweddariad |
| **9.3** | Holiadur Bwrdd Iechyd - Holiadur i gwblhau os dymunir |
| **9.4** | E-Bwletin Un Llais #17 |
| **9.5** | E-Bwletin Un Llais #18 |
| **9.6** | Un Llais Cymru - Dyddiadau pwysig i ddod |
| **9.7** | Cyhoeddiad o'r Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth – Adroddiad wedi ei gylchredeg. |
| **10.0** | **Materion Eraill** |
| **10.1** | Adolygu Polisïau – Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth angen ei greu erbyn 2028. |
| **10.2** | Elusendai - Cafwyd diweddariad gan DIR, cais cynllunio wedi ei gyflwyno, fe fydd y cyfansoddiad drafft newydd yn cael ei wirio yn yr wythnosau nesaf. |
| **11.0** | **EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF** |
| **11.1** | Cyllid chwarterol 4 |
| **11.2** | Adroddiad blynyddol y Cadeirydd |
| **11.3** | Taliadau aelodau |
| **11.4** | Datganiad Ariannol ac Archwiliadau Cyllidol |
| | **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Nos Fercher 1af Ebrill, 2026 am 7:00yh |
| **Manylion cyswllt:** Gillian Morris penmynyddcc@gmail.com | |

**Llofnod** **Dyddiad**